PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Ymateb ar ffurf Cynllun Gweithredu i'r Adolygiad Gwella Ansawdd,

**a gynhaliwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, Cymru, ym mis Mai 2018**

| Ymateb i Ganlyniad QER ac Adroddiadau Technegol |
|---|
| Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi ac wedi ei chalonogi gan y Canlyniad a'r Adroddiadau Technegol cadarnhaol a dderbyniwyd gan Dîm Adolygu QER y QAA, sy'n dod i'r casgliad bod ei "dull o wella profiad dysgu myfyrwyr yn effeithiol, ei fod yn cael ei arwain gan fyfyrwyr ac yn canolbwyntio ar y myfyrwyr". Mae datblygiad uniongyrchol, mewn ymateb i'r Adolygiad, wedi golygu ailsefydlu'r Grŵp Tasg Adolygiad Sefydliadol fel y Grŵp Adolygiad Gwella Ansawdd, gan ehangu ei gylch gorchwyl i gynnwys monitro projectau gwella.<br><br>O ran 'elwa' ar yr adroddiadau, mae'r Brifysgol wedi ymdrechu i hysbysu pob un o'i grwpiau rhanddeiliaid. Rhyddhawyd stori newyddion i'r cyfryngau, wedi'i phostio ar wefan gyhoeddus y Brifysgol (yn cynnwys cyswllt i wefan Adroddiad QER y QAA) ac wedi ei hamlygu ar ei chyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, rhoddwyd y newyddion ar wefan fewnol FyMangor y Brifysgol, a oedd yn hygyrch i'r holl staff a myfyrwyr, a'i gylchredeg trwy e-bost, yn ogystal â rhoi gwybod i Gyngor y Brifysgol, tynnwyd sylw ato mewn cyfarfodydd staff mewnol, diwrnodau agored darpar fyfyrwyr, ac yng Nghynhadledd flynyddol Addysgu a Dysgu CELT. |

| Ymateb i'r Cymeradwyaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nod | Gweithredu | Nodiadau | Cyfrifoldeb | Dyddiad Targed |
| ***A. Casglu a defnyddio data am gysylltiad a pherfformiad myfyrwyr mewn modd systematig i lywio a gwella cefnogaeth i fyfyrwyr a chynnydd academaidd.*** | | | | |
| **1.** Parhau i gasglu, dadansoddi a defnyddio data am gysylltiad a pherfformiad myfyrwyr i lywio a gwella cefnogaeth i fyfyrwyr a chynnydd academaidd. | **1.1.** Parhau gyda'r dull gweithredu mewn perthynas â'r her o ddal gafael ar fyfyrwyr a chanlyniadau myfyrwyr, fel yr amlinellir yn y maes i ganolbwyntio arno yn y ddogfen Dadansoddiad Hunan-werthuso. | | Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu), CELT (Canolfan Gwella Addysgu a Dysgu), a Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu Colegau | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **1.2.** Sefydlu dull gweithredu i faes Diwygio'r Cwricwlwm er mwyn mynd i'r afael â heriau'n ymwneud â recriwtio myfyrwyr a chyflogadwyedd, ac i egluro prosesau addysgu a dysgu. | Mae'r meysydd i'w cwmpasu yn cynnwys diwygio'r dull o amserlennu, cyflwyno lleoliadau ar gyfer pob rhaglen, a rhesymoli'r cymhlethdod o ddewisiadau modiwlau. | Dirprwy Is-ganghellor (Addysgu a Dysgu), CELT, a Chyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu Colegau | Parhau tan 2020 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***B. Y bartneriaeth eang gyda myfyrwyr, a werthfawrogir yn ddiwylliannol, sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd y brifysgol.*** | | | | |
| **1.** Parhau i ddatblygu'r bartneriaeth eang gyda myfyrwyr, a werthfawrogir yn ddiwylliannol, sy'n treiddio i bob agwedd ar fywyd y brifysgol. | **1.1.** Sicrhau bod y Strategaeth Addysgu a Dysgu newydd dan arweiniad Myfyrwyr wedi'i hyrwyddo'n llawn i'r myfyrwyr ac i'r aelodau'r staff hefyd. | | CELT, Undeb y Myfyrwyr | Parhau tan 2020 |
| | **1.2.** Sicrhau bod y galluogwyr yn y Strategaeth Addysgu a Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr yn cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd. | | Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu, CELT, ac Undeb y Myfyrwyr | Parhau tan 2020 |
| | **1.3.** Datblygu cwricwla arloesol mewn cydweithrediad â myfyrwyr, gan sicrhau mewnbwn i gynllunio'r cwricwlwm a dulliau asesu. | | Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu, CELT, QAVU, Undeb y Myfyrwyr, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Addysg a Dysgu, a Chyfarwyddwyr Ennyn Diddordeb Myfyrwyr | 2018/19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **1.4.** Sefydlu Strategaeth Iechyd Meddwl dan arweiniad myfyrwyr | Gan ddefnyddio'r fethodoleg a greodd y Strategaeth Addysgu a Dysgu dan arweiniad Myfyrwyr, mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr wedi cytuno i gydweithio yn ystod 2018/19 i greu Strategaeth Iechyd Meddwl dan arweiniad myfyrwyr. Gyda barn a phrofiadau'r myfyrwyr yn sail i'r gwaith hwn, bydd yn gosod strategaeth dair blynedd ar draws y Brifysgol ar gyfer gwella cefnogaeth iechyd meddwl, a hyrwyddo lles iechyd meddwl ymhlith y myfyrwyr. | Gwasanaethau Myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr | 2018/19 |
| | **1.5.** Parhau i ddatblygu'r ymgyrch "Ar y Cyd ...", trwy ei ail-lansio'n benodol fel yr "Ymgyrch Adborth Myfyrwyr". | Fel y gall pob myfyriwr, gan gynnwys myfyrwyr ôl-radd ymchwil, ddeall beth sy'n digwydd i'w hadborth, a pha fforymau a ddefnyddir i weithio mewn partneriaeth. | Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr | 2018/19 |
| | **1.6.** Rhoi cyfle i fyfyrwyr gael mynediad i arolygon y Brifysgol trwy wahanol ffyrdd. | Os na all myfyrwyr fynd at arolwg ar-lein, byddant yn cael yr opsiwn i'w lenwi dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. | Uned Ennyn Diddordeb Myfyrwyr | 2018/19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **1.7.** Manteisio ar y bartneriaeth a werthfawrogir yn ddiwylliannol, i roi cefnogaeth bellach i brofiad neilltuol a chyson myfyrwyr ôl-radd ymchwil ar draws pob ysgol, fel y cadarnhawyd yn Adroddiad Canlyniadau'r QER. | Sicrhau bod gan fyfyrwyr ymchwil ôl-radd gyfle i gyfrannu'n uniongyrchol at wella eu profiad eu hunain, a datblygiad yr Ysgol Ddoethuriaeth, wedi'i hwyluso gan y system cynrychiolwyr ôl-radd ymchwil. | Ysgol Ddoethurol ac Undeb y Myfyrwyr | Parhaus |

| ***C. Dwyieithrwydd sydd wedi gwreiddio'n ddwfn ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiad myfyrwyr.*** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.** Dwyieithrwydd sydd wedi gwreiddio ym mhob agwedd ar fywyd y brifysgol sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiad myfyrwyr. | **1.1.** Gyda'r Safonau Iaith Gymraeg yn cael eu cyflwyno, sicrhau bod cydymffurfiaeth wedi'i seilio ar gyd-destun polisi iaith Gymraeg newydd y Brifysgol, sy'n cwmpasu holl brofiad myfyrwyr gyda'r pwyslais ar normaleiddio dwyieithrwydd. | | Canolfan Bedwyr, Penaethiaid Ysgolion, Deoniaid Colegau, a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol | Wedi ei gwblhau. Yn gwbl weithredol o 1 Ebrill 2018. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **1.2.** Sicrhau bod dwyieithrwydd wedi'i wreiddio ymhellach o fewn strwythurau academaidd y Brifysgol trwy benodi Dirprwy Gyfarwyddwr Addysgu a Dysgu (yn y tri Choleg newydd), a Chynrychiolwyr Myfyrwyr (yn yr Ysgolion sydd newydd eu ffurfio), gyda chyfrifoldeb penodol dros faterion cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. | Bydd deiliaid swyddi sy'n aelodau staff yn aelodau o fwrdd gweithredol eu Coleg, gan sicrhau prif ffrydio mentrau a thrafodaethau cyfrwng Cymraeg trwy'r parth academaidd. Bydd y Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn cwrdd â Llywydd UMCB Undeb y Myfyrwyr yn rheolaidd. Bydd y strwythur hwn hefyd yn sicrhau y caiff cyfleoedd cyfrwng Cymraeg eu harchwilio'n llawn wrth i ddatblygiadau newydd yn y cwricwlwm gael eu cyflwyno. | Deoniaid Colegau ac Undeb y Myfyrwyr | Bydd pob un o'r tri aelod staff a benodir yn eu swyddi erbyn 1 Medi 2018. Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn cael eu hethol ar gyfer 2018/19. |
| | **1.3.** Monitro ac adolygu effeithiolrwydd cynrychiolwyr staff a myfyrwyr sy'n gyfrifol am faterion cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. | | Dirprwy Gyfarwyddwyr Addysgu a Dysgu'r Colegau a Llywydd UMCB UM | Parhaus |
| | **1.4.** Cyflwyno gweithdrefn newydd ar gyfer asesu effaith polisïau a strategaethau ar yr Iaith Gymraeg yn y Brifysgol. | Integreiddio'r Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn Fframwaith Datblygu Polisi'r Brifysgol. | Grŵp Tasg Cydymffurfio | 2018/19 |

| Ymateb i'r pwyntiau a gadarnhawyd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nod | Gweithredu | Nodiadau | Cyfrifoldeb | Dyddiad Targed |
| ***A. Gweithredu'r Fframwaith Asesu i sicrhau cysondeb asesu ar draws y Brifysgol.*** | | | | |
| **1.** Fframwaith Asesu wedi'i wreiddio yn holl ddarpariaeth academaidd Prifysgol Bangor. | **1.1.** Gwreiddio'r Fframwaith Asesu 'n llawn yn holl ddarpariaeth academaidd Prifysgol Bangor. | Mae'r Fframwaith Asesu yn rhan o'r Cod Ymarfer ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni (Cod 08) ac mae eisoes yn berthnasol i bob modiwl a rhaglen newydd, ac wrth ail-ddilysu. | Uned Sicrhau Ansawdd a Dilysu (QAVU) | 2024, o fewn chwe blynedd;<br>oherwydd y cynhelir ail-ddilysu o leiaf bob chwe blynedd, bydd holl ddarpariaeth y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth i'r Fframwaith o fewn llai na chwe blynedd. |
| | **1.2.** Ychwanegu'r Fframwaith Asesu i'r rhestr wirio dilysu/ail-ddilysu, ynghyd â'r ddarpariaeth ar y cyd. | Mae'n cynnwys anfon y dogfennau at bob Aseswr Mewnol, Allanol a Myfyrwyr, a'u hystyried wrth ddilysu rhaglenni a modiwlau newydd. | QAVU a'r Grŵp Cymeradwyo Rhaglenni (PAG) | 2018/19 |
| | **1.3.** Lledaenu'r Fframwaith Asesu i bartneriaid cydweithredol. | Gan gynnwys hyfforddiant yn y defnydd o'r Fframwaith, ac ar gyfer monitro. Mae ail-ddilysu yn BIBF yn enghraifft ddiweddar o wneud hyn. | QAVU a'r Swyddfa Partneriaethau Addysgu | 2018/19 |
| | **1.4.** Ychwanegu'r Fframwaith Asesu i'r fersiwn nesaf o'r Llawlyfr Dilysu ar gyfer darpariaeth ar y cyd. | | Swyddog Rheoliadau | 2018/19 |
| | **1.5.** Darparu hyfforddiant ar y Fframwaith Asesu fel rhan o'r portffolio DPP, ac ar gyfer myfyrwyr aseswyr. | | CELT, Pennaeth Sicrhau Ansawdd, ac Undeb y Myfyrwyr | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **2.** Adolygu a gwella'r Fframwaith Asesu yn flynyddol, i sicrhau ei fod yn bodloni blaenoriaethau addysgu a dysgu'r Brifysgol, anghenion myfyrwyr, ac arfer gorau pedagogaidd. | **2.1.** Adolygu'r Fframwaith Asesu yn flynyddol, gan gynnwys ymgynghori â'r myfyrwyr. | Yn hytrach na adolygu bob pum mlynedd fel y gwneir gyda rheoliadau a chodau ymarfer. | CELT, Grŵp Tasg Addysgu a Dysgu, Pennaeth Ennyn Diddordeb Myfyrwyr, a Llywydd Undeb y Myfyrwyr | Parhaus, bob blwyddyn |
| | **2.2.** Diwygio'r Cod Ymarfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni (Cod 08), ar ôl pob adolygiad. | | Swyddog Rheoliadau | Parhaus, bob blwyddyn |
| | **2.3.** Lledaenu'r fersiwn diweddaraf o'r Fframwaith Asesu i bob Ysgol, ar ôl pob adolygiad. | | QAVU | Parhaus, bob blwyddyn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***B. Y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffygion yn y ddarpariaeth ym MDIS Tashkent.*** | | | | |
| **1.** I roi sylw i'r pryderon a nodwyd yn MDIS Tashkent.<br><br>*Wedi'u hamlinellu'n flaenorol yn y ddogfen Dadansoddiad o Hunanwerthuso, a gyflwynwyd fel rhan o'r QER* | **1.1.** Penodi safonwyr penodol ar gyfer rhaglenni MDIS Tashkent. | Mae Pennaeth Sicrhau Ansawdd, ac wedi hynny, aelod CELT ar gyfer Cynllunio'r Cwricwlwm, wedi paratoi adroddiadau manwl y Safonwr | Pennaeth Sicrhau Ansawdd a CELT | Wedi ei gwblhau |
| | **1.2.** Trefnu ymweliadau rheolaidd â Tashkent, gan gynnwys: cyfarfodydd rhwng uwch staff o MDIS, MDIS Tashkent a'r Brifysgol; hyfforddiant gyda staff perthnasol; a grwpiau ffocws gyda myfyrwyr. | O haf 2017 ymlaen, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-ganghellor (Dysgu ac Addysgu). Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfodydd oedd y safonwr, yr Arweinydd Academaidd a staff o'r Swyddfa Partneriaethau Addysgu. Bu'r | Dirprwy Is-ganghellor Dysgu ac Addysgu a'r Swyddfa Partneriaethau Addysgu | Parhaus<br><br>Mae cyfarfodydd bob pythefnos wedi eu hamserlennu ar gyfer y 6 mis nesaf |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Dirprwy Is-ganghellor yn cadeirio Bwrdd Arholi Mewnol yn hydref 2017 ac ym mis Mawrth 2018. Mae'r ymweliadau rheolaidd hyn wedi cynnwys llawer o hyfforddiant, cyfarfodydd gyda staff perthnasol a sesiynau grŵp ffocws gyda gwahanol grwpiau o fyfyrwyr. Ynghyd â hyfforddiant i arweinwyr modiwlau yn Singapore yn ystod pob cyfarfod o'r Bwrdd Arholi | | |
| | **1.3.** Datblygu a mabwysiadu meini prawf marcio i'w rhannu gyda myfyrwyr, i feithrin gwaith paratoi priodol. | | Arweinydd Academaidd a Safonwyr | Wedi ei gwblhau |
| | **1.4.** Gwella ansawdd yr adborth asesu a roddir i fyfyrwyr. | Camau i wella ansawdd yr adborth asesu a roddir i fyfyrwyr, yn cynnwys safoni sampl o'r adborth gan uwch staff yn MDIS | Arweinydd Academaidd a Safonwyr | Parhaus |
| | **1.5.** Mesurau i gynyddu'r cyfathrebu rhwng tiwtoriaid MDIS Tashkent a threfnwyr modiwlau MDIS o ran cynnwys yr addysgu a chofnodion addysgu. | | Arweinydd Academaidd, Safonwyr a'r Swyddfa Partneriaethau Addysgu | Wedi ei gwblhau |
| | **1.6.** Adolygu'r deunyddiau addysgu ar gyfer pob modiwl o ran cyfraddau methiant | | Arweinydd Academaidd | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | uchel, gan gynnwys adolygu'r asesiadau ac arholiadau. | | | |
| | **1.7.** Penodi Arbenigwr Pwnc Allanol i adolygu pob modiwl Twristiaeth. | | Swyddfa Partneriaethau Addysgu | Wedi ei gwblhau |
| | **1.8.** Gweithredu cynllun i wella ansawdd ffurflenni monitro blynyddol QA1. | Wedi'i weithredu; gan gynnwys sefydlu cyfrifoldeb gyda'r rhai sy'n ymwneud ag addysgu rheng flaen a darparu hyfforddiant a gweithdai | Arweinydd Academaidd, Swyddfa Partneriaethau Addysgu a'r Safonwr | Wedi ei gwblhau |
| **2.** Ail-ddilysu | **2.1.** Ail-ddilysu darpariaeth MDIS Tashkent. | Cytunwyd ar hyn mewn egwyddor gan Gyngor y Brifysgol ar sail cyflwyno nifer o newidiadau. Gweler y cofnodion canlynol. | QAVU | Hydref/Gaeaf 2010 |
| | **2.2.** Cyfnewid y rhaglenni a ddilyswyd yn MDIS Tashkent gyda rhaglenni wedi'u breinio. | Bydd hyn yn galluogi'r Brifysgol i fod â rheolaeth uniongyrchol dros y cwricwlwm a'r deunyddiau addysgu. Bydd hefyd yn galluogi'r staff dysgu yn MDIS Tashkent i gysylltu'n uniongyrchol â'u cydweithwyr ym Mhrifysgol Bangor o ddydd i ddydd i sicrhau bod y deunyddiau'n cael eu darparu'n effeithiol | Arweinydd Academaidd | Dechrau Medi 2019 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2.3.** Sicrhau bod staff Prifysgol Bangor yn cymryd y prif gyfrifoldeb am yr holl faterion asesu, gan gynnwys cynllunio cwestiynau aseiniadau a phapurau arholiad, gwneud gwaith marcio a pharatoi adborth i fyfyrwyr. | Bydd hyn yn mynd i'r afael â phroblemau a godwyd gan yr Arholwyr Allanol mewn perthynas â chywirdeb marcio ac adborth. Hefyd, yr ymateb gwael i newidiadau a awgrymwyd i aseiniadau a phapurau arholiad. | Arweinydd Academaidd, Swyddfa Partneriaethau Addysgu a'r Safonwr | Dechrau Medi 2019 |
| | **2.4.** Gwella lefel goruchwylio'r Brifysgol, gyda phwyslais parhaus ar ddarparu hyfforddiant i staff MDIS. | Mae'n debygol y bydd amodau'n gysylltiedig â threfniadau staffio a gweinyddol yn MDIS. | Arweinydd Academaidd, Swyddfa Partneriaethau Addysgu a'r Safonwr | Parhaus |
| **3.** Cysylltiad uniongyrchol parhaus | **3.1.** Staff y Brifysgol i barhau i gydweithio'n agos â staff yn MDIS Singapore a Tashkent i fynd i'r afael â materion. | | Bydd yr Is-grŵp Darpariaeth Gydweithredol yn parhau i fonitro cynnydd | Parhaus |

| ***C. Datblygu'r Ysgol Ddoethurol i gefnogi profiad ôl-radd ymchwil neilltuol a chyson ar draws pob ysgol.*** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **1.** Datblygu Rheolaeth Weithredol | **1.1.** Penodi Cyfarwyddwyr Ôl-radd Ymchwil Colegau. | Swyddogaeth a bennir yn y Rheoliadau Ôl-radd Ymchwil newydd | Deoniaid Colegau | Wedi ei gwblhau: Awst 2018 |
| | **1.2.** Penodi Gweinyddwyr Ôl-radd Ymchwil i gefnogi'r Colegau newydd. | | Gweinyddu Myfyrwyr | Wedi ei gwblhau: Medi 2018 |
| | **1.3.** Penodi Arweinwyr Ôl-radd Ymchwil yn yr Ysgolion sydd newydd eu ffurfio. | Mae 3 arweinydd disgyblaeth yn yr Ysgol Gwyddorau Naturiol oherwydd y nifer fawr o fyfyrwyr ôl-radd ymchwil | Penaethiaid Ysgolion | Wedi ei gwblhau: Medi 2018 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **1.4.** Trosglwyddo swyddogaethau ôl-radd ymchwil o'r Gofrestrfa Academaidd i Weinyddu Myfyrwyr a'r Ysgol Ddoethurol. | | Ysgol Ddoethurol, Gweinyddu Myfyrwyr a Gwasanaethau Corfforaethol | Wedi ei gwblhau: Awst 2018 |
| | **1.5.** Ad-drefnu Bwrdd yr Ysgol Ddoethurol a Phwyllgor Graddau Ymchwil i adlewyrchu'r ailstrwythuro. | | Deon Ôl-radd Ymchwil a'r Ysgol Ddoethurol | Tachwedd 2018 |
| | **1.6.** Penodi cynrychiolwyr ôl-radd ymchwil i Gyngor Cynrychiolwyr Ôl-radd Ymchwil Undeb y Myfyrwyr. | | Undeb y Myfyrwyr | Hydref 2018 |
| | **1.7.** Diweddaru’r Rheoliadau Ôl-radd ymchwil. | Cyfuno Rheoliadau 03 a 05, a Chod Ymarfer 03, i ddiffinio a phennu'r holl swyddogaethau ac arferion penodol i ôl-radd ymchwil. | Deon Ôl-radd Ymchwil a'r Ysgol Ddoethurol | Hydref 2018 |
| | **1.8.** Sicrhau cyfansoddiad newydd Timau Goruchwylio ôl-radd ymchwil. | Dylai pob myfyriwr ôl-radd ymchwil gael o leiaf 2 oruchwyliwr: Prif oruchwyliwr a chyd-oruchwyliwr | Arweinwyr Ôl-radd Ymchwil Ysgolion | Cofrestriadau Newydd 2018/19 |
| | **1.9.** Ehangu Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol (DTP) / Canolfannau Hyfforddiant Doethurol (CDT). | Cyflwynwyd 1 cais am DTP newydd a 3 chais am CDT newydd | Arweinwyr DTP/CDT a'r Ysgol Ddoethurol | Yn disgwyl canlyniad y ceisiadau i Baneli Asesu UKRI |
| **2.** Datblygu Derbyniadau a Chynefino | **2.1.** Parhau i weithio ar wella'r sesiwn gynefino Ymchwil Ôl-radd i gynnwys elfen benodol i Undeb y Myfyrwyr | | Cynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr ac Ôl-radd ymchwil | 2018/19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2.2.** Sefydlu ceisiadau uniongyrchol i geisiadau Ôl-radd Ymchwil gan fyfyrwyr cartref a rhyngwladol. | | Derbyniadau ac Arweinwyr Ôl-radd Ymchwil | Wedi ei gwblhau |
| | **2.3.** Cyflwyno sesiynau cynefino gwell i'r Brifysgol a'r Colegau ym mis Hydref, Ionawr ac Ebrill. | Pwyslais ar gefnogaeth, hyfforddiant a phrosesau cyson, cofnodi cynefino ar safleoedd yr Ysgol Ddoethurol a Cholegau Ôl-radd Ymchwil ar Blackboard | Ysgol Ddoethurol a Chyfarwyddwyr Ôl-radd ymchwil Colegau | 2018/19 |
| | **2.4.** Cyflwyno sesiynau cynefino Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3. | Pwyslais ar brosesau perthnasol i'r cam Ôl-radd Ymchwil; cofnodi cynefino ar safleoedd yr Ysgol Ddoethurol a Cholegau Ôl-radd Ymchwil ar Blackboard | Ysgol Ddoethurol a Chyfarwyddwyr Ôl-radd ymchwil Colegau | Hydref 2018 |
| **3.** Datblygu Hyfforddiant Staff | **3.1.** Cyflwyno hyfforddiant goruchwylio gorfodol i brif Oruchwylwyr | Wedi'i nodi yn y Rheoliadau Ôl-radd Ymchwil newydd. Angen mwy o arweiniad ar ddilyniant, thesis, safonau | Ysgol Ddoethurol, Bwrdd yr Ysgol Ddoethurol, Penaethiaid Ysgolion | Wedi ei gwblhau |
| | **3.2.** Sefydlu gweithdai newydd ar gyfer hyfforddiant wrth ganfod materion iechyd meddwl. | Cydnabyddir ei fod yn fater sydd o bwys cynyddol ar lefel Ôl-radd Ymchwil | Arweinwyr Ôl-radd Ymchwil, Goruchwylwyr, Gwasanaethau Myfyrwyr | Hydref 2018 |
| **4.** Datblygu Gwybodaeth i fyfyrwyr Ôl-radd Ymchwil | **4.1.** Diweddaru'r Llawlyfr Ôl-radd Ymchwil<br>a diweddaru gwefan yr Ysgol Ddoethurol | Darparu arweiniad clir a chryno sy'n adlewyrchu'r Rheoliadau newydd ac arweiniad ar y safonau a ddisgwylir ar bob lefel o Ôl-radd Ymchwil | Ysgol Ddoethurol a Thîm y We Gwasanaethau Gwybodaeth | 2018/19 |
| | **4.2.** Datblygu safleoedd yr Ysgol Ddoethurol a'r Colegau ar Blackboard. | | Ysgol Ddoethurol a Chyfarwyddwyr Ôl-radd Ymchwil Colegau | 2018/19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **4.3.** Diffinio paramedrau'r system cynrychiolwyr Ôl-radd Ymchwil newydd, sy'n cynnwys y Cyngor Cynrychiolwyr Ôl-radd Ymchwil sy'n faes datblygu. | | Undeb y Myfyrwyr a'r Ysgol Ddoethurol | 2018/19 |
| **5.** Datblygu Hyfforddiant Ôl-radd Ymchwil | **5.1.** Ehangu'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi a'r defnydd o Vitae RDF. | Ymgorffori'r cynllun Ymchwilydd Gwobr Cyflogadwyedd Bangor a datblygiad gyrfa personol. | Ysgol Ddoethurol, Cyfarwyddwyr/Arweinwyr Ôl-radd Ymchwil Colegau ac Ysgolion, a'r Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd | Parhaus |
| | **5.2.** Ehangu cyfleoedd hyfforddiant trwy geisiadau DTP a CDT newydd | Cyflwyniadau newydd wedi'u gwneud - ond cadw'n ymwybodol o gyfleoedd pellach sy'n deillio o UKRI | Ysgol Ddoethurol ac Arweinwyr DTP/CDT | Parhaus |
| | **5.3.** Methodolegau PG Cert HE a PG Cert Ymchwil | Cyrsiau'n cael eu treialu yn rhaglen hyfforddi'r Ysgol Ddoethurol neu ar gyfer Rhaglen KESS 2 | CELT ac Ysgol Busnes Bangor | Wedi'i gwblhau; monitro parhaus |
| | **5.4.** Darparu mynediad i hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr ôl-radd ymchwil sy'n astudio o bell | | Ysgol Ddoethurol | Datblygu yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19 |
| | **5.5.** Cyflwyno cyrsiau hyfforddiant datblygiad proffesiynol newydd ar effaith, cyhoeddi, PURE, GDPR Researchfish, a chyfathrebu. | | Ysgol Ddoethurol | Datblygu a threialu yn ystod 2018/19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **5.6.** Cefnogi myfyrwyr Ôl-radd Ymchwil i ddatblygu Cynhadledd Ôl-radd Ymchwil dan arweiniad myfyrwyr. | | Ysgol Ddoethurol ac Undeb y Myfyrwyr | Parhaus |
| **6.** Datblygu PRES | **6.1.** Sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi a bod Cynlluniau Gweithredu yn cael eu datblygu, eu gweithredu, eu monitro a'u hadolygu. | | Bwrdd yr Ysgol Ddoethurol, Cyfarwyddwyr / Arweinwyr Ôl-radd Ymchwil y Colegau, a Chynrychiolwyr Undeb y Myfyrwyr | Cyfarfod PRES a gynhaliwyd ym Medi 2018. Cynlluniau Gweithredu Colegau/Ysgolion i'w dilyn, gaeaf 2018/19 |
| **7.** Datblygiad Strategol | **7.1.** Cynnal cyfarfodydd strategol Ôl-radd Ymchwil Ysgolion i sicrhau profiad a chyfleoedd cyfartal. | I drafod recriwtio, cysylltiad â staff, ennyn diddordeb mewn Ôl-radd Ymchwil, ystyriaethau a chefnogaeth yr Ysgol Ddoethurol | Deon Ôl-radd Ymchwil, Rheolwr yr Ysgol Ddoethurol, Pennaeth yr Ysgol, Cyfarwyddwr Coleg Ôl-radd Ymchwil, Arweinydd Ysgol ac Undeb y Myfyrwyr | Hydref 2018 |
| **8.** Datblygu Dilyniant | **8.1.** Datblygu'r System Adolygu Cynnydd Ôl-raddedigion ar-lein (PGRS), a pharhau i atgyfnerthu pwysigrwydd cofnodi canlyniadau'r cyswllt rhwng y goruchwyliwr a'r myfyriwr. | Diweddarwyd 2018 | Tîm Apiau TG a'r Ysgol Ddoethurol. Mae Arweinwyr Ôl-radd Ymchwil a Chyfarwyddwyr y Colegau yn gweithredu ar ganlyniadau myfyriwr Ôl-radd Ymchwil unigol | Wedi ei gwblhau Parhau i fonitro (Ebrill - Medi) ac adolygu (Hydref bob blwyddyn) |
| | **8.2.** Sefydlu proses cyflwyno Thesis yn Electronig trwy PURE | Disgrifir yn y Rheoliadau newydd | Ysgol Ddoethurol a'r Llyfrgell | Wedi ei gwblhau Monitro yn 2018/19 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **8.3.** Cyflwyno'r Adolygiad, Cwblhau a Chyfnod Cofrestru | Yn arbennig y cyfnod o gofrestru Ôl-radd ymchwil, ystyried y cyfrifoldeb a'r ffioedd, o ran cyflwyno a chwblhau mewn pryd, a chofnodi data Ôl-radd Ymchwil yn gywir yn systemau Bangor | Ysgol Ddoethurol, Gweinyddu Myfyrwyr a Chynllunio | Blwyddyn academaidd 2018/19 |

**Yr Athro John Hughes,** ***Is-Ganghellor***

**Ruth Plant,** ***Llywydd, Undeb Bangor***